

Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 235 (Cymru) – 10 Ebrill 2019

Etholiad Senedd Ewrop: diweddariad

Gwnaed [Gorchymyn i bennu dyddiad y bleidlais](#) ar gyfer etholiad Senedd Ewrop yn y DU ar 8 Ebrill a daw i rym ar 10 Ebrill. Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu diwrnod y bleidlais fel 23 Mai 2019.

Yr wythnos diwethaf, anfonwyd e-bost gennym at bob Swyddog Canlyniadau Lleol a Swyddog Cofrestru Etholiadol i'w hatgoffa am y canllawiau a ddarparwyd gennym a nodi'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y Comisiwn dros y cyfnod sydd i ddod. Roeddem yn credu y byddai'n ddefnyddiol aildatgan hyn yma.

Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol

Dylai'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn eich rhanbarth etholiadol fod wedi cysylltu â chi erbyn hyn i amlinellu sut y bydd yn rheoli'r etholiad. Mae rhestr o Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol y DU a'u manylion cyswllt ar gael ar [ein gwefan](#).

Canllawiau ac adnoddau

Rydym wedi cyhoeddi cyfres lawn o ganllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiad i Senedd Ewrop, ac maent ar gael ar [ein gwefan](#). Mae amserlen yr etholiad ar gael [yma](#).

Hefyd, rydym wedi llunio [nodyn canllaw byr](#) er mwyn tynnu sylw at rai o'r ystyriaethau allweddol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau Lleol, gan gydnabod pa mor agos yw'r etholiadau lleol yn rhannau o Loegr ar 2 Mai 2019.

Archebu llawlyfrau i orsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym

Ar 8 Ebrill, anfonwyd e-bost gennym at bob Swyddog Canlyniadau Lleol a oedd yn cynnwys dolen i [ffurflen ar-lein](#) i archebu copïau caled o llawlyfrau i orsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym.

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen archebu ar-lein yw dydd Llun 15 Ebrill 2019.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiad Senedd Ewrop: diweddariad

Dolen i'r Gorchymyn sy'n pennu dyddiad y bleidlais, a nodyn atgoffa am y canllawiau a'r cymorth sydd ar gael gan y Comisiwn.

Fideos gan bleidleiswyr

Yr ail mewn cyfres o fideos am bleidleisio hygyrch.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadau yn rheolaidd. Maent yn un o'n sianeli allweddol i gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd danysgrifio i'r [Bwletinau Gweinyddu Etholiadau](#).

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk.

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau o ran staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich

Noder na fydd modd i chi ddiwygio'r ffurflen archebu eich hun ar ôl i chi ei chyflwyno. Os bydd angen i chi newid eich archeb o gwbl, cysylltwch â swyddfa Cymru ar 02920 346802 neu e-bostiwrch gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Rydym yn disgwyl dechrau dosbarthu archebion o 13 Mai 2019 a dylid cwblhau'r broses yr wythnos honno; os nad ydych wedi derbyn eich archeb erbyn 17 Mai 2019, cysylltwch â swyddfa Cymru ar 02920 346802 neu e-bostiwrch gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Caiff fersiynau PDF o'r llawlyfr a'r canllaw cyflym eu cyhoeddi ar ein gwefan cyn hir, a byddwn yn cadarnhau pan fydd y rhain ar gael mewn Bwletin yn y dyfodol.

Cymorth gan y Comisiwn Etholiadol

Rydym yn sylweddoli bod hwn yn gyfnod heriol ac rydym yn ddiolchgar am yr holl waith caled y byddwch chi a'ch timau yn ei wneud unwaith eto er mwyn sicrhau etholiad sy'n cael ei gynnal yn effeithiol. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os gallwn roi rhagor o gymorth, cysylltwch â swyddfa Cymru ar 02920 346802 neu e-bostiwrch gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Ni fyddwn yn mynd ati i fonitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau yn erbyn y safonau perfformiad yn ystod cyfnod yr etholiad, ond byddwn yn parhau i ddefnyddio'r safonau fel fframwaith i roi cymorth a her yn ystod cyfnod yr etholiad, gan weithio'n agos gyda'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, ac i gefnogi ein hadroddiadau statudol ar ôl yr etholiad.

Fodd bynnag, rydym wedi cyhoeddi [arolwg byr ynglŷn â gwybodaeth reoli](#) sy'n ceisio gwybodaeth am agweddau allweddol ar y ffordd y byddwch yn rheoli'r bleidlais yn eich ardal. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg yw **dydd Llun 22 Ebrill 2019**.

Rydym yn sylweddoli y daw hwn ar adeg brysur, felly rydym wedi ceisio ei wneud mor syml â phosibl i'w gwblhau. Mae'r wybodaeth rydych yn ei darparu yn hollbwysig er mwyn helpu i gael darlun clir o'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith ledled Prydain Fawr i gynnal Etholiadau Senedd Ewrop a bydd hefyd yn darparu ystadegau allweddol y gellir eu defnyddio gyda'r cyfryngau ac ymholwyr eraill mewn ffordd adweithiol a rhagweithiol.

Fideos gan bleidleiswyr

Fel y nodwyd ym [Mwletin 234](#), mae'r Comisiwn yn cynhyrchu cyfres o fideos i ddangos y pethau syml y gellir eu gwneud i wella profiad pobl o bleidleisio a helpu i sicrhau bod pleidleisio yn hygyrch i bawb.

Mae'r fideo nesaf yn ein cyfres wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r RNIB. Mae [Hugh](#) sydd â cholled golwg, yn dweud wrthym am ei brofiad o bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio a sut y gellid gwella'r broses i bobl â nam ar eu golwg, yn ei farn ef.

Mae Hugh yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod y staff yn yr orsaf bleidleisio yn ymgysylltu â sut i ddefnyddio'r ddyfais pleidleisio

gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddatdanysgrifio](#) ar unrhyw adeg.

cyffyrddadwy cyn y diwrnod pleidleisio. Mae hefyd yn nodi pa mor ddefnyddiol ydyw bod copi wedi'i chwyddo o'r papur pleidleisio y gellir ei ddal â llaw ar gael i bleidleiswyr fynd ag ef i mewn i'r bwth pleidleisio er mwyn cyfeirio ato wrth farcio eu papurau pleidleisio.

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019